# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

**2024-25**

**Gorffennaf 2025**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau ar y cyflogau a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, a sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Taliadau Annibynnol

## 2024-25

**Gorffennaf 2025**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Contents

**Rhagair y Cadeirydd ....... 6**

**Ein Blwyddyn 2024-25 ....... 8**

**1. Gwaith y Bwrdd ....... 10**

Beth yw'r Bwrdd? ....... 10

Beth yw'r Penderfyniad? ....... 10

Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei weinyddu? ....... 10

Egwyddorion y Bwrdd ....... 11

Rhaglen waith y Bwrdd ....... 11

**2. Penderfyniad ymatebol ....... 12**

Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu ....... 12

Llety dros nos ....... 13

Cyflogau Aelodau ....... 13

Cyflogau Staff ....... 14

Cymorth i Grwpiau'r Senedd ....... 14

Cynllun pensiwn yr Aelodau ....... 14

Treuliau Eithriadol ....... 15

Diogelwch ....... 15

**3. Penderfyniad symlach ....... 17**

**4. Penderfyniad cynaliadwy ....... 18**

Cynaliadwyedd ariannol ....... 18

Cynaliadwyedd amgylcheddol ....... 18

Hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth ....... 18

**5. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu ....... 20**

Tystiolaeth ac Ymchwil ....... 20

Ymgysylltu â'r Aelodau a'u staff ....... 21

Ymgysylltu â gwaith Pwyllgorau'r Senedd ....................21

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyfryngau ....................21

Trafodaethau gyda Chomisiwn y Senedd ....................22

Goruchwylio adnoddau gweinyddol a chyllideb y Bwrdd ....................22

Rhwydweithiau taliadau'r DU ....................22

Adolygiad Diwedd Tymor Annibynnol ....................23

**6. Edrych tua'r dyfodol ....................24**

**Atodiad A - Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2024-25 ....................25**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae’n bleser gennyf gyflwyno’r adroddiad hwn ar waith y Bwrdd yn ystod 2024-25.

Gyda’r Senedd newydd ar y gorwel, mae’r Bwrdd wedi canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau'r adolygiadau thematig a chwblhau cynigion ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, sydd wedi’i gynllunio i sicrhau bod gan yr Aelodau a’u staff yr hyn sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau. Yn benodol, nod y Bwrdd eleni fu penderfynu ar y ffordd ymlaen mewn digon o amser i sicrhau bod gan y rhai sy'n ystyried sefyll yn yr etholiad y wybodaeth sydd ei hangen i wneud y penderfyniad hwn, ac i Gomisiwn y Senedd gyllidebu a chynllunio yn unol â'r darpariaethau a fydd ar gael i’r Aelodau.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi gweithgareddau’r Bwrdd, ei waith ymgysylltu, ei gynnydd ar adolygiadau thematig a phenderfyniadau allweddol yn ystod 2024-25, ac mae wedi’i drefnu yn ôl y pedwar amcan strategol y mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i’w cyflawni yn ystod y tymor hwn.

Ymgynghorodd y Bwrdd ar ei gynigion Rhan Un ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i lety dros nos, costau swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu a chymorth i grwpiau gwleidyddol. Cyhoeddwyd penderfyniadau’r Bwrdd ar y cynigion hyn mewn adroddiad ym mis Mawrth. Cwblhaodd y Bwrdd hefyd ei gynigion drafft ar gyfer ei ymgynghoriad Rhan Dau gan gynnwys cyflogau Aelodau a chymorth ychwanegol a chyllidebau staff cymorth a chyflogau a graddfeydd, a oedd i fod i ddechrau yn ystod chwarter cyntaf 2025-26.

Gwnaed cryn dipyn o ymchwil ryngwladol gymharol a meincnodi â deddfwrfeydd eraill i lywio'r cynigion hyn, gan hefyd ymgysylltu ag Aelodau, staff a rhanddeiliaid allanol. Mae cyhoeddi’r dystiolaeth hon yn gwella tryloywder gwaith y Bwrdd ac yn dangos ymrwymiad y Bwrdd i wneud penderfyniadau ac ymgysylltu sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl Aelodau hynny a'u staff sydd wedi neilltuo amser i gyfarfod â’r Bwrdd neu gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig y rhai sydd wedi helpu i lunio gwaith yr adolygiad staffio. Rwy’n ymwybodol iawn o ba mor brysur y mae Aelodau a’u staff, felly mae’n galonogol bod cymaint o bobl yn fodlon rhannu eu profiadau a’u harbenigedd i helpu i lywio gwaith y Bwrdd.

Hoffwn ddiolch i’m cyd-aelodau ar y Bwrdd am gyfrannu eu gwaith caled a’u harbenigedd i sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu cyflawni a bod cynnydd ar yr adolygiadau thematig wedi datblygu mewn blwyddyn sydd wedi bod yn heriol.

Hoffwn gydnabod yn arbennig gyfraniad, a thalu teyrnged, i'r diweddar Mike Redhouse a fu farw'n drist iawn ym mis Ionawr 2025. Roedd Mike yn arbenigwr mewn materion cyflogaeth ac Adnoddau Dynol, a gyda'i wybodaeth a'i angerdd fe ysgogodd adolygiad fframwaith cyflog a graddfeydd ar gyfer staff. Mae ei ymrwymiad i sicrhau bod cyflog ac amodau staff yn addas ar gyfer y Senedd nesaf ac ar ôl hynny wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud i Senedd ddiwygiedig fwy o faint, a byddwn yn gweld eisiau ei gyfraniad a'i gyfeillgarwch.

Fel Bwrdd, roedd yn ddrwg gennym hefyd o fod wedi colli arbenigedd a phrofiad yr Arglwydd Hanson o'r Fflint (Syr David Hanson gynt), a ymddiswyddodd ym mis Gorffennaf 2024 pan ymgymerodd â swydd Weinidogol yn Llywodraeth y DU. Mae ei waith ar baratoi ar gyfer ffyrdd newydd o weithio wedi arwain at newidiadau buddiol i'w rhoi ar waith cyn tymor nesaf y Senedd.

Mae cyfnod y Fonesig Jane Roberts ar y Bwrdd yn dod i ben yn 2025. Rydym yn ddiolchgar iawn am ei gwybodaeth a'i brwdfrydedd wrth fwrw ymlaen ag adolygiad y lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol ac argymell cynigion i sicrhau gweinyddiaeth fwy teg a symlach o'r cyllid hwn.



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

# Ein Blwyddyn 2024-25

## GWEITHGARWCH Y BWRDD

- **7** chyfarfod Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau
- **9** cyfarfod Bwrdd
- **7** chyfarfod y Grŵp Cynrychiolwyr Staff
- **3** chyfarfod rhwydwaith Cadeiryddion Cyrff Taliadau'r DU

**8** cyfarfod â staff a chynrychiolwyr undebau llafur, ac Aelodau i ddatblygu fframwaith cyflog a graddio staff.

Cyfarfodydd â **36** o Aelodau yn ystod y flwyddyn drwy Grwpiau Cynrychiolwyr, Sesiynau Galw Heibio neu ymgysylltu ar gyflogau Aelodau neu'r adolygiad staffio.

**11** cyfarfod â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid a rhanddeiliaid allanol eraill i drafod cyflog Aelodau.

Cyhoeddi **8** papur ymchwil, yn dadansoddi gwariant Aelodau neu'n cymharu dulliau'r DU neu ryngwladol o ymdrin â chyflog a chymorth Aelodau.

Deialog barhaus â'r Llywydd, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu, a'r Prif Weithredwr a gwaith i gynllunio rhaglen o waith ar y cyd rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn yn y cyfnod cyn y Seithfed Senedd.

## PENDERFYNIADAU SYLWEDDOL

- Penderfyniad Eithriadol i ddileu'r cap ar gyflogau Aelodau
- Cynnydd cyflog o 6% i Aelodau a staff cymorth ar gyfer 2025-26;
- Ymgynghorwyd ar gynigion polisi ar gyfer y Seithfed Senedd – hawl i lety dros nos, swyddfeydd etholaethol, ac ymgysylltu a chymorth i grwpiau'r Senedd.
- Datblygu cynigion cychwynnol, ac ymgynghori arnynt, ar gyfer cyflwyno fframwaith Teuluoedd Swyddi newydd i'r Seithfed Senedd.
- Cyflwyno taliadau diswyddo symlach a chyson ar gyfer staff a thaliadau dirwyn i ben ar gyfer Aelodau sy'n ymddiswyddo neu'n beidio â chael eu hethol yn yr etholiad nesaf.
- Symleiddio gofynion i Aelodau hawlio costau busnes a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

# Bwrdd Taliadau Annibynnol

## EIN DIBEN

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd** yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

## EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.

Our decisions should be appropriate within the context of Welsh earnings and the wider financial circumstances of Wales.

Our decisions should support the strategic purpose of the Senedd and facilitate the work of its Members.

Our decisions should be robust, clear, transparent, sustainable, inclusive, and represent value for money for the taxpayer.

## EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd. Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.**

### EIN HAMCANION STRATEGOL:

**PENDERFYNIAD YMATEBOL:** Cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

**PENDERFYNIAD SYMLACH:** Symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

**PENDERFYNIAD CYNALIADWY:** Cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

**HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU:** Ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

### SUT BETH YW LLWYDDIANT:

- Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawnac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.
- Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.
- Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.

# 1. Gwaith y Bwrdd

## Beth yw'r Bwrdd?

**3.** Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd ('Aelodau') y cyflog a'r adnoddau priodol er mwyn iddynt i gyflawni eu rôl, o ystyried y swyddogaethau y maent yn eu cyflawni a phwysigrwydd sicrhau atebolrwydd a gwerth am arian yn y ffordd y defnyddir yr adnoddau hynny. Mae hyn yn cynnwys pennu cyflogau Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio ar gyfer costau staffio a swyddfa.

**4.** Mae Comisiwn y Senedd yn rhoi cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd i'w alluogi i weithredu'n effeithiol. Caiff y gyllideb ar gyfer cymorth gweinyddol i'r Bwrdd (gweler Atodiad A) a'r gyllideb i dalu'r holl gostau sy'n deillio o'r Penderfyniad eu dyrannu gan Gomisiwn y Senedd bob blwyddyn.

## Beth yw'r Penderfyniad?

**5.** Mae'r Bwrdd yn pennu cyflogau'r Aelodau a'r symiau y gallant eu hawlio ar gyfer costau busnes a staffio mewn dogfen o'r enw'r Penderfyniad.

**6.** Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu ag Aelodau, eu Staff Cymorth a Chomisiwn y Senedd drwy gydol y flwyddyn i ddeall unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau o ran anghenion er mwyn adlewyrchu'r rhain mewn adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried y rhagolygon economaidd ac unrhyw gynnydd ar sail chwyddiant i gyllidebau Aelodau a chyflogau staff.

## Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei weinyddu?

**7.** Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad, prosesu hawliadau'r Aelodau a rhoi arweiniad a chymorth i Aelodau a'u staff ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Penderfyniad.

**8.** Mae Cod Ymddygiad y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddilyn y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd wrth hawlio eu costau. Mae manylion yr holl hawliadau a dalwyd i Aelodau ar gael ar wefan Comisiwn y Senedd.

**9.** Ceir rhagor o wybodaeth am weithrediad y rolau statudol a'r gyd-ddibyniaeth rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd yn Siarter y Bwrdd.

## Egwyddorion y Bwrdd

**10.** Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai cymorth ariannol a thâl yr Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru; a
- rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

**11.** Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth a sefydlodd y Bwrdd Taliadau, Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.[1] Mae'n dweud y canlynol:

> *'Rhaid i'r Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Senedd adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno.'*

## Rhaglen waith y Bwrdd

**12.** Cytunodd y Bwrdd ar raglen waith i wneud gwelliannau i'r Penderfyniad yn y Senedd hon ac i gyflwyno Penderfyniad i ddiwallu anghenion y Seithfed Senedd.

**13.** Mae'r rhaglen waith strategol ar gyfer 2021-26 yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Penderfyniad Ymatebol
- Penderfyniad Symlach
- Penderfyniad Cynaliadwy
- Hyrwyddo Ymddiriedaeth ac Ymgysylltu

**14.** Mae'r Bwrdd wedi trefnu'r gwaith hwn yn unol â'r pum adolygiad 'thematig' a ganlyn a fydd yn ystyried y broses diwygio'r Senedd:

- Penderfyniad symlach;
- adolygiad o'r cymorth staffio i Aelodau;
- newid ffyrdd o weithio;
- lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol; ac
- adolygiad o daliadau a chymorth personol yr Aelodau

[1] Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (legislation.gov.uk)

# 2. Penderfyniad ymatebol

*"Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i newidiadau i anghenion busnes yr Aelodau, disgwyliadau dinasyddion, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol."*

**15.** Yn ystod y flwyddyn hon cynhaliodd y Bwrdd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ag Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd i sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i ddiwallu anghenion yr Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd a'u hetholaethau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau o'r Senedd a Grŵp Cynrychiolwyr Staff, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau Unite a PCS. Mae nifer o gynigion y Bwrdd wedi'u llywio gan sylwadau a wnaed gan Aelodau, staff a Chomisiwn y Senedd.

**16.** Mae ffocws y Bwrdd eleni wedi bod ar baratoi Penderfyniad diwygiedig ar gyfer y Seithfed Senedd, gan adlewyrchu newidiadau yng nghyfansoddiad a maint y Senedd nesaf o ganlyniad i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd ei Adolygiad Blynyddol arferol o'r Penderfyniad ar gyfer 2025-2026, sef blwyddyn olaf y Chweched Senedd. Felly, mae ei benderfyniadau hefyd wedi cynnwys mesurau trosiannol ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n ymddiswyddo ar ddiwedd y Senedd hon neu sy'n sefyll i gael eu hethol, ond nad ydynt yn dychwelyd.

## Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu

**17.** Parhaodd y Bwrdd i ystyried goblygiadau sut mae ffyrdd o weithio'r Aelodau a'u staff wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn debygol o newid eto yn y Seithfed Senedd. Roedd y gwaith hwn, dan arweiniad Syr David Hanson, yn cynnwys adolygiad o sut mae Aelodau etholedig yn gweithio mewn deddfwrfeydd eraill gydag etholaethau aml-Aelod (i'w gyflwyno yng Nghymru ar gyfer y Seithfed Senedd) yn ogystal ag adolygiad o wariant yr Aelodau ar gostau swyddfa a chysylltu ag etholaethau yn ystod y Chweched Senedd.

**18.** Yn dilyn yr adolygiad, ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gynigion ar gyfer swyddfa etholaethol newydd a chymorth ymgysylltu ar gyfer y Seithfed Senedd, gan gynnwys symleiddio'r dull o sefydlu swyddfeydd ac ymestyn y swm y gellir ei drosglwyddo rhwng cyllidebau i roi mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd i'r Aelodau, yn dilyn galwadau gan yr Aelodau am fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau.

## Llety dros nos

**19.** Cynhaliodd y Bwrdd waith ymchwil i gost llety preswyl i Aelodau fel rhan o'r broses adolygu flynyddol. Mewn ymateb, cynyddwyd y swm y gall Aelodau ei hawlio am aros dros nos yn Llundain i gyd-fynd â chyfradd IPSA a chynyddwyd y symiau ar gyfer llety rhent yng Nghaerdydd gan Fynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a oedd yn 9.8%.

**20.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd i sicrhau bod y dull o ddarparu cymorth ar gyfer llety dros nos yn parhau i fod yn addas ar gyfer anghenion yr Aelodau. Mae'r Bwrdd yn bwriadu seilio cymhwysedd ar gyfer lwfans llety preswyl ar ffiniau'r etholaethau yn etholiad nesaf y Senedd.

## Cyflogau Aelodau

**21.** Er bod y Bwrdd wedi gosod y mynegai blynyddol ar gyfer cyflogau'r Aelodau ar ddechrau'r tymor, ystyriodd y Bwrdd y newidiadau yn yr amgylchiadau economaidd ac, yn hollbwysig, y cyfnod parhaus o gynnydd cyflog yn economi ehangach Cymru, fel y nodir gan yr Arolwg Blynyddol o Enillion Cartrefi (ASHE) Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024.

**22.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad y byddai cadw'r cap 3% ar gyflog Aelodau yn groes i egwyddor graidd y Bwrdd o bennu penderfyniadau yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru. Ni fyddai ychwaith yn cyflawni amcan statudol y Bwrdd o roi i Aelodau lefel o dâl 'sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd' eu gwaith fel Aelodau. Cytunwyd ar Benderfyniad Eithriadol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, a oedd yn dileu'r cap ar gyflogau Aelodau, a chynyddodd cyflogau Aelodau 6% ar gyfer 2025-26.

**23.** Casglodd y Bwrdd ddata a thystiolaeth gymharol a gofynnodd am farn yr Aelodau, cynrychiolwyr Senedd yr Ieuenctid, Comisiwn y Senedd a rhanddeiliaid allanol ar gyflogau'r Aelodau er mwyn llywio cynigion ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae'r adolygiad o daliadau'r Aelodau wedi cael ei arwain gan Gadeirydd y Bwrdd a bydd y Bwrdd yn nodi cynigion ar gyfer taliadau'r Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd ddechrau 2025-26.

**24.** Cyflwynodd y Bwrdd hefyd daliadau dirwyn i ben i Aelodau gau eu swyddfeydd a dirwyn i ben eu staff a'u hymrwymiadau cytundebol eraill pe baent yn peidio â bod yn Aelod yn yr etholiad nesaf.

## Cyflogau Staff

**25.** Cytunodd y Bwrdd i gynyddu cyflogau staff cymorth yr Aelodau 6%, sef ffigur ASHE Cymru ar gyfer 2025-26.

**26.** Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, cytunodd y Bwrdd hefyd i symleiddio hawliau dileu swydd staff. Bydd gan bob aelod o staff hawl i gynnydd o 100% ar y taliad dileu swyddi statudol nawr, yn hytrach na bod rhai'n cael 100% ac eraill 50% yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

**27.** Yn ystod 2024-25, parhaodd y Bwrdd â'i adolygiad o gymorth staffio i Aelodau yn y Seithfed Senedd dan arweiniad aelod y Bwrdd Mike Redhouse. Comisiynodd y Bwrdd ymgynghoriaeth allanol Beamans i ddatblygu fframwaith a lefelau cyflog newydd ar gyfer y Seithfed Senedd. Ymgynghorwyd ar gynigion cychwynnol ar gyfer cyflwyno fframwaith Teuluoedd Swyddi newydd ddechrau haf 2024.

**28.** Bu nifer o Aelodau a staff cymorth yn ymwneud â datblygu fframwaith drafft ar gyfer teuluoedd swyddi newydd. Gwnaeth Beamans hefyd feincnodi cyflogau staff cymorth yr Aelodau yn erbyn cyflogau ar gyfer rolau tebyg ar draws y farchnad swyddi, a bydd y canlyniadau hyn yn llywio cynigion y Bwrdd ar gyfer cyflog a graddfeydd staff cymorth ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd cynigion y Bwrdd ar gyfer fframwaith cyflog a graddfeydd newydd yn cael eu cyhoeddi i ymgynghori arnynt ddechrau 2025-26.

## Cymorth i Grwpiau'r Senedd

**29.** Cwblhaodd y Bwrdd ei gynigion drafft i ymgynghori arnynt ar gymorth ariannol grwpiau gwleidyddol yn y Seithfed Senedd. Jane Roberts, un o aelodau'r Bwrdd, oedd yn arwain ar y gwaith hwn ac yn dilyn hynny, ymgysylltwyd ag Aelodau ac ystyriwyd tystiolaeth y mecanweithiau ariannu ar gyfer grwpiau gwleidyddol anllywodraethol mewn deddfwrfeydd eraill.

**30.** Cynigiodd y Bwrdd newid enw'r lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol i Gymorth i Grwpiau'r Senedd; dileu'r cwantwm sefydlog o gyllid ar gyfer grwpiau; darparu cyllid i grwpiau o Aelodau yn unig fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog a dosbarthu cyllid drwy 'gyfradd haenog fesul Aelod' symlach a mwy tryloyw. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei benderfyniad ar y newidiadau arfaethedig hyn yn haf 2025.

## Cynllun pensiwn yr Aelodau

**31.** Roedd y Bwrdd yn falch o benodi'r Cadeirydd dros dro, Gregor Law, yn Gadeirydd Bwrdd Pensiwn Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, drwy Ymddiriedolwyr Dalriada.

**32.** Ar ôl ymgynghori â’r Aelodau yr effeithiwyd arnynt, penderfynodd y Bwrdd ar rwymedi McCloud ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (sy’n cael ei alw yn ‘y Rhwymedi’) ac mae rheolau'r Cynllun wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn.

**33.** Cytunodd y Bwrdd hefyd y byddai Aelodau’r Cynllun Pensiwn yr effeithiwyd arnynt gan ddyfarniad rhwymedi McCloud yn gallu hawlio hyd at £250 tuag at gyngor ariannol annibynnol er mwyn llywio eu prosesau gwneud penderfyniadau.

**34.** Adolygodd, a chymeradwyodd, y Bwrdd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, y Bwrdd a’r Bwrdd Pensiynau, sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu penodi’r Gweinyddwr Trydydd Parti, Broadstone a gofynion Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Treuliau Eithriadol

**35.** Bwriad y Penderfyniad yw rhoi digon o gyllideb i’r Aelodau i sicrhau y gellir talu’r holl gostau busnes neu staffio a ganiateir. Ar adegau, gall amgylchiadau nad ydynt wedi’u rhagweld sy’n aml y tu allan i reolaeth Aelod olygu bod angen cyllid ychwanegol neu fwy o hyblygrwydd; mae'r Penderfyniad a'r Bwrdd yn ymatebol i ‘amgylchiadau eithriadol’ o’r fath. Pan fydd y rhain yn codi, gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr achos dros ddarparu cymorth ariannol eithriadol.

**36.** Yn ystod 2024-25 daeth dau gais am dreuliau eithriadol i law’r Bwrdd. Ni chafodd y ddau gais am gostau ychwanegol eu cymeradwyo; fodd bynnag, gydag un cais, cytunodd y Bwrdd i ganiatáu i lefel uwch o gyllid gael ei throsglwyddo rhwng cronfeydd nag a ganiateir fel arfer gan y Penderfyniad.

## Diogelwch

**37.** Caiff mesurau diogelwch ar gyfer cartrefi a swyddfeydd yr Aelodau y mae Tîm Diogelwch Comisiwn y Senedd yn eu hystyried yn angenrheidiol eu hariannu o’r Penderfyniad.

**38.** Mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am wneud asesiadau o gartrefi a swyddfeydd yr Aelodau, sy'n parhau i gael eu diweddaru i sicrhau bod mesurau diogelwch yn briodol. Mae tîm Diogelwch Comisiwn y Senedd yn parhau i ymateb i anghenion a phryderon diogelwch yr Aelodau, er enghraifft, drwy sicrhau bod gan bob aelod o staff cymorth larwm argyfwng personol a'u bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio, er mwyn gwarantu eu diogelwch ni waeth ble maen nhw'n gweithio.

**39.** Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu'n flynyddol â'r Comisiwn i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir i wella mesurau diogelwch ar gyfer Aelodau. Mae’r Bwrdd yn

fodlon bod darpariaethau'r Penderfyniad yn sicrhau bod y mesurau pwysig hyn yn cael eu cyflawni.

# 3. Penderfyniad symlach

*"Bydd y Bwrdd yn ceisio symleiddio'r Penderfyniad gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i Aelodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain gyda mesurau diogelu cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd."*

**40.** Mae'r Bwrdd wedi parhau â'i waith i symleiddio'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer Aelodau a'u staff y mae'n eu gosod yn y Penderfyniad. Hugh Widdis, aelod o'r Bwrdd, sy'n arwain yr adolygiad hwn.

**41.** Yn ystod yr adolygiad blynyddol, symleiddiodd y Bwrdd y darpariaethau dileu swyddi staff a dileu'r gofyniad i Aelodau gael tri dyfynbris wrth gaffael offer neu wasanaethau drwy gontractau Comisiwn y Senedd (a gaffaelwyd ymlaen llaw).

**42.** Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi amrywiaeth o gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd, er mwyn sicrhau ei bod hi'n symlach ac yn haws i Aelodau a'u staff hawlio costau a chyflawni eu dyletswyddau:

- Mae'r Bwrdd yn bwriadu cael dim ond dwy ardal ddaearyddol gymwys ar gyfer llety dros nos yn y Seithfed Senedd, yn hytrach na'r tair ardal bresennol. Y bwriad yw y bydd y ddwy ardal yn symlach i'w gweinyddu, gan y byddant yn seiliedig ar ffiniau etholaethau, yn hytrach nag amser teithio i'r gwaith.

- Mae'r Bwrdd yn bwriadu dileu'r egwyddorion sy'n ymwneud â darpariaethau swyddfeydd yn y Seithfed Senedd. Bydd hyn yn symleiddio'r broses o sefydlu swyddfa ar gyfer Aelodau. Bydd y mesurau diogelwch i drethdalwyr, y mae'n rhaid i Aelodau lynu wrthynt, o ran rhesymoldeb, cynaliadwyedd, enw da a gwerth am arian, yn parhau i fod yn berthnasol i bob trafodiad.

- Er mwyn cynyddu tryloywder ac eglurder, mae'r Bwrdd yn bwriadu newid enw'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol i Gymorth i Grwpiau'r Senedd ac egluro pwrpas y cymorth yn y Senedd nesaf, yn dilyn ymgynghoriad ar ddefnyddio'r gronfa.

# 4. Penderfyniad cynaliadwy

*"Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno model cymorth cynaliadwy, sy'n ystyried yr amrywiaeth o anghenion Aelodau, yr argyfwng newid hinsawdd, a'r sefyllfa ariannol hirdymor yng Nghymru."*

**43.** Mae gan y Bwrdd ystod o swyddogaethau statudol, gan gynnwys sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

## Cynaliadwyedd ariannol

**44.** Wrth ystyried 'gwerth am arian' yng nghyd-destun ei holl benderfyniadau, mae'r Bwrdd yn cael ei lywio gan ddata a thystiolaeth gymharol, gan gynnwys hawliadau'r Aelodau (a gyhoeddir ar-lein), data meincnodi cyflogau, a data economaidd a dadansoddiad rhagolygon.

**45.** Mae'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau cost ei holl benderfyniadau ac mae wedi ymrwymo i wneud ei benderfyniadau yng nghyd-destun economi ehangach Cymru ac yn ystyried goblygiadau tymor hwy cynigion yng ngoleuni Senedd estynedig yn y dyfodol.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

**46.** Mae'r Bwrdd yn ceisio rhoi hyblygrwydd a disgresiwn i Aelodau; fodd bynnag, mae'r Penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant a achosir yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael.

**47.** Ar ben hynny, mae'r Penderfyniad yn nodi y dylai Aelodau a'u staff cymorth anelu at deithio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy sy'n bosibl ac yn briodol ac mae hefyd yn annog 'rhannu ceir'.

**48.** Mae'r Bwrdd wedi cynnal ymchwil sy'n cymharu dulliau Seneddol y DU a chyrff cyflogau o annog cynaliadwyedd, er mwyn llywio ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth

**49.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb, gan leihau'r rhwystrau fel y gall y Senedd adlewyrchu cymdeithas, lle y gall unrhyw un, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau, ddod yn Aelod o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau

bod gan bob Aelod yn y Seithfed Senedd y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

**50.** Mae’r Bwrdd wedi gofyn am farn yr Aelodau ac wedi adolygu’r darpariaethau yn y Penderfyniad, gan gynnal ymchwil gymharol i'r gefnogaeth ychwanegol a ddarperir i seneddwyr ledled y DU.

**51.** Mae’r Bwrdd wedi datblygu cynigion i sicrhau bod y derminoleg yn briodol a bod y cymorth sydd ar gael i'r Seithfed Senedd yn ddigonol, yn adlewyrchu model cymdeithasol anabledd, ac yn ddigon ymatebol i ddiwallu anghenion yr Aelodau, eu dibynyddion ac anghenion eu hetholwyr. Bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar gynigion yn ystod chwarter cyntaf 2025-26.

# 5. Hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymgysylltu

*"Bydd y Bwrdd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn gallu cynnal adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd."*

## Tystiolaeth ac Ymchwil

**52.** Mae gwaith y Bwrdd wedi'i lywio a'i ategu gan ddadansoddiad data, ymgysylltu a chasglu tystiolaeth er mwyn deall yn well sut mae'r cymorth a ddarperir drwy'r Penderfyniad yn cael ei ddefnyddio a'i wario a sut mae deddfwrfeydd eraill yn cefnogi aelodau.

**53.** Mae'r Bwrdd wedi cynnal ystod eang o ymchwil i lywio ei adolygiad blynyddol a'i gynigion polisi ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys:

- Cymhariaeth Ryngwladol: dadansoddiad wrth ddesg o'r cymorth ariannol a ddarperir i seneddwyr mewn deddfwrfeydd eraill ledled y DU ac yn fyd-eang.
- Ymgysylltu ag Aelodau a Staff Cymorth: ymgysylltu ag Aelodau, staff grwpiau a staff cymorth ac undebau llafur drwy sesiynau galw heibio i'r Aelodau, cyfweliadau a chyfarfodydd, ymweliadau â swyddfeydd etholaethol, gohebiaeth, ac ymatebion i ymgynghoriadau ar adolygiadau blynyddol diweddar.
- Dadansoddiad o ddata a gwariant economaidd a chyflogau: dadansoddiad o ddata a dangosyddion economaidd a chyflogau a adroddwyd gan gyrff fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth y DU a dadansoddiad o wariant Aelodau a Grwpiau.

**54.** Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i gyhoeddi'n llawn, ac mae 8 adroddiad, ynghyd â chrynodebau gweithredol, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd ochr yn ochr â dogfennau ymgynghori perthnasol.

**55.** Adolygwyd gwefan y Bwrdd hefyd yn ystod 2024-25 i'w gwneud yn fwy hawdd ei defnyddio a hygyrch i Aelodau, staff cymorth, rhanddeiliaid ehangach a'r cyhoedd.

## Ymgysylltu â’r Aelodau a'u staff

**56.** Er mwyn hybu dealltwriaeth o’u gwaith a cheisio adborth ar y cymorth a ddarperir drwy’r Penderfyniad, mae’r Bwrdd wedi ymgysylltu’n eang ag Aelodau’n anffurfiol ac yn ffurfiol yn ystod 2024-25.

**57.** Bu ymgysylltiad helaeth ar yr adolygiadau o gefnogaeth i gyllid grŵp, yr adolygiad o gyflogau Aelodau, a fframwaith cyflogau a graddfeydd staff.

**58.** Cyfarfu'r Bwrdd â Grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau a'r Grŵp Cynrychiolwyr Staff (a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau Unite a PCS) saith gwaith.

**59.** Roedd saith sesiwn ‘galw heibio’ anffurfiol lle roedd aelodau'r Bwrdd ar gael i drafod materion o bryder neu o ddiddordeb i Aelodau.

**60.** Yn ystod 2024-25, mae'r Bwrdd wedi cyfarfod yn anffurfiol neu'n ffurfiol â 36 o Aelodau, llawer ohonynt sawl gwaith, i drafod materion o ddiddordeb a phryder.

## Ymgysylltu â gwaith Pwyllgorau’r Senedd

**61.** Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at:

- y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol);
- y Pwyllgor Busnes ar gynigion Rhannu Swyddi Cadeiryddion Pwyllgor ac adolygiad o brosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau;
- darparu gwybodaeth am waith y Bwrdd a'r rhaglen waith ar gyfer y dyfodol i Bwyllgor y Senedd yn y Dyfodol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r cyfryngau

**62.** Ceisiodd y Bwrdd ymgysylltu â rhanddeiliaid y tu allan i Gomisiwn y Senedd a gofyn am eu barn i'w bwydo i'r adolygiad o gydnabyddiaeth yr Aelodau, a gwnaeth gyfarfod â chynrychiolwyr o’r Senedd Ieuenctid.

**63.** Hefyd, ymgysylltodd y Bwrdd yn rhagweithiol â newyddiadurwyr cyn ymgynghoriadau ar gynigion polisi Rhan Un a'r adolygiad blynyddol, a arweiniodd at sylw ar draws prif allfeydd darlledu, ar-lein a newyddion print o gynigion y Bwrdd ar gyflogau Aelodau.

## Trafodaethau gyda Chomisiwn y Senedd

**64.** Cyfarfu'r Cadeirydd â'r Llywydd a'r Comisiynydd Cyllideb a Llywodraethu dair gwaith yn ystod 2024-25 i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac ystyried gweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin.

**65.** Cyfarfu'r Cadeirydd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn i drafod gwaith y Bwrdd a sut y mae'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd. Mae'r cyfarfodydd wedi cynnwys trafodaethau ar baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd a chyllidebu.

**66.** Hefyd, cyfarfu aelodau'r Bwrdd â'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr i drafod yr adolygiad o gymorth i bleidiau gwleidyddol a'r gwaith i symleiddio geiriad y Penderfyniad a sut y caiff ei weithredu.

## Goruchwylio adnoddau gweinyddol a chyllideb y Bwrdd

**67.** Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi bod rhaid i Gomisiwn y Senedd roi cymorth gweinyddol o'r fath i'r Bwrdd fel y mae angen rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.

**68.** Mae'r Bwrdd yn nodi ei ofynion cyllidebol gweinyddol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn gohebiaeth. Mae cyllideb weinyddol y Bwrdd, fel rhan o gyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd, yn destun craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae cyllideb y Penderfyniad hefyd wedi'i chynnwys yng nghyllideb ddrafft Comisiwn y Senedd.

## Rhwydweithiau taliadau'r DU

**69.** Aeth y Cadeirydd i dri chyfarfod Cadeiryddion cyrff taliadau pedair deddfwrfa'r DU yn ystod 2024-25.

**70.** Mae'r rhwydwaith yn gyfle i drafod gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â'r heriau o hwyluso gwaith yr Aelodau. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cyflog yr Aelodau, cyflog adsefydlu i Aelodau, dulliau o werthuso effeithiolrwydd y bwrdd, ymgysylltu â'r cyhoedd a chyflog a graddfeydd staff.

**71.** Mae ysgrifenyddiaeth y Bwrdd wedi parhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr yng ngwahanol gyrff taliadau'r DU er mwyn rhannu arfer da a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth.

**72.** Cyflwynodd y Bwrdd dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Ad Hoc Cynulliad Gogledd Iwerddon ar Fil Aelodau'r Cynulliad (Bwrdd Taliadau) ac mae nifer o sylwadau'r Bwrdd wedi llywio gwelliannau i'r Bil.

## Adolygiad Diwedd Tymor Annibynnol

**73.** Cytunodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad diwedd tymor i asesu cynnydd y Bwrdd yn erbyn ei amcanion strategol ac i nodi unrhyw wersi i'r Bwrdd newydd o ran ei ffyrdd o weithio.

Bydd yr adolygiad diwedd tymor yn adeiladu ar waith yr adolygiad effeithiolrwydd canol tymor, a bydd yn cael ei gyflwyno'n annibynnol, yn gofyn am farn rhanddeiliaid a bydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi ei adroddiad cynnydd terfynol yn nodi sut y mae wedi ymateb i'r adolygiad effeithiolrwydd canol tymor.

# 6. Edrych tua'r dyfodol

**74.** Mae’r Bwrdd wedi ceisio sicrhau y bydd y penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn ateb y gofyn dan y trefniadau newydd. Fodd bynnag, mae wedi’i ddatblygu o reidrwydd ochr yn ochr ag ystyriaeth y Senedd ei hun o’i dull o ran busnes yn y dyfodol, a all ddatblygu ymhellach ar ôl yr etholiad. Mae’r Bwrdd yn disgwyl monitro’n agos y profiad cynnar o gymhwyso’r penderfyniad newydd yn ymarferol a rhagor o addasiadau i drefniadau busnes er mwyn nodi unrhyw agwedd ar y penderfyniad lle y gall fod angen adolygiad.

**75.** Bydd y Bwrdd yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid yn ystod 2025-26, gan benodi tri aelod newydd o'r Bwrdd a dechrau pedwerydd tymor y Bwrdd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd wedi comisiynu ‘Adolygiad diwedd tymor’ i lywio dull y Bwrdd o ymdrin â busnes a blaenoriaethau strategol ar gyfer ei dymor newydd.

**76.** Bydd ymrwymiad y Bwrdd i ymgysylltu agored a thryloyw ar y gwaith hwn a'i brosesau penderfynu yn parhau.

**77.** Os hoffech gyfrannu at waith y Bwrdd, e-bostiwch:

Taliadau@senedd.cymru

# Atodiad A - Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd ar gyfer 2024-25

Mae adran 11 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi bod rhaid i'r Adroddiad Blynyddol sy'n manylu ar weithgarwch y Bwrdd gynnwys sut y mae'r Bwrdd wedi defnyddio ei adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn dangos costau uniongyrchol y Bwrdd Taliadau ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd naw cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd unigol ag aelodau'r Bwrdd gyda'r ysgrifenyddiaeth, Comisiwn y Senedd, rhanddeiliaid eraill a sesiynau galw heibio gydag Aelodau a staff cymorth. Cynhaliwyd rhai o'r cyfarfodydd hyn yn bersonol yn Nhŷ Hywel, ac roedd eraill yn hybrid neu'n rhithwir.

Mae'r tablau a ganlyn yn manylu ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd.

**Tabl 1 - Ffioedd aelodau’r bwrdd**

| | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse | Dr Elizabeth Haywood | Hugh Widdis[2] | Syr David Hanson[3] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | £4,438.47 | £4,135.40 | £15,865.58 | £0.00 | £1,186.62 |

Y gyfradd ddyddiol ar gyfer y Cadeirydd yw £400, y gyfradd am hanner diwrnod yw £200 a chyfradd yr awr yw £53.33.

Y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau’r Bwrdd yw £310, y gyfradd am hanner diwrnod yw £155 a chyfradd yr awr yw £41.33.

[2] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.
[3] Ymddiswyddodd Syr David Hanson fel aelod o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024.

**Tabl 2 – Teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd**[4]

| | Y Fonesig Jane Roberts | Michael Redhouse[5] | Dr Elizabeth Haywood | Hugh Widdis | Syr David Hanson |
|---|---|---|---|---|---|
| **Milltiroedd mewn car** | £0.00 | £0.00 | £553.50 | £0.00 | £0.00 |
| **Tacsi/Llogi car** | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £53.76 | £7.40 |
| **Teithiau awyr** | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £79.66 | £0.00 |
| **Trên a'r Tiwb** | £407.92 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £62.74 |
| **Tollau** | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| **Treuliau eraill** | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £18.20 | £0.00 |
| **Llety** | £341.96 | £0.00 | £243.97 | £151.98 | £80.99 |
| **Cynhaliaeth (arlwyo)** | £78.70 | £0.00 | £68.70 | £0.00 | £20.00 |
| **Cyfanswm** | £828.58 | £0.00 | £866.17 | £303.60 | £171.13 |

**Tabl 3 - Costau ychwanegol**

Mae Tabl 3 yn dangos costau eraill y Bwrdd megis y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a cheisio cyngor allanol sy'n ymwneud â Rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Mae'r tabl hwn hefyd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â chefnogi'r adolygiad thematig o gymorth staffio.

| | |
|---|---|
| **Tâl blynyddol y Comisiwn Gwybodaeth** | £40 |
| **Ymchwil a chyngor arbenigol** | £56,094 |
| **Arlwyo** | £410 |

[4] Mae Tabl 2 yn dangos symiau'r hawliadau teithio a chynhaliaeth a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Dyma'r costau net sy'n dangos costau YG ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol.
[5] Ymunodd Mike Redhouse â phob cyfarfod o'r Bwrdd yn rhithwir yn ystod 2024-25.

**Tabl 4 - Cyfanswm y costau**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm ffioedd aelodau'r Bwrdd (Tabl 1)** | £25,626.07 |
| **Cyfanswm teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd (Tabl 2)** | £2,169.48 |
| **Costau ychwanegol (Tabl 3)** | £56,544 |
| **Costau staffio**[6] | £449,903 |
| **Cyfanswm y costau ar gyfer 2024-25** | £534,242.55 |

[6] Mae costau staffio ar gyfer y tîm clercio sy'n cefnogi'r Bwrdd wedi'u cynnwys yma fel y cytunwyd arno â Chomisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD